Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ●
Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF
☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# AGENDA Cyfarfod Arferol

● 12 / 06 / 2023 ● Siambr y Cyngor ac ar-lein

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd arlein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR
CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar:**

https://us02web.zoom.us/j/86258493161?pwd=NlRrR2xXZnFKUVpxN2NraWRORUxudz09

**Meeting ID: 862 5849 3161
Passcode: 498284**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 12fed Mehefin 2023 ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.**

## AT GADEIRYDD A CHYNGHORWYR CYNGOR TREF FFESTINIOG

## FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG 12fed Mehefin 2023

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO.**


Noder bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datganiad o Ddiddordeb** - Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi a'i hanfon at y Clerc pan yn briodol. |
| **3.** | | Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. **Dalier Sylw: trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>I dderbyn unrhyw adroddiad gan yr Heddlu. |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **6.** | | **Argae Llyn Ystradau, Tanygrisiau**<br>Gwahoddiad wedi ei roi i John  Armstrong o gwmni Engie i siarad ar fater yr argae, a phroblemau baw cŵn. |
| **7.** | | **Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br>a) Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 26ain Mai 2023, copi ynghlwm.<br><br>b) Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 26ain Mai 2023, copi ynghlwm. |

| | | |
|---|---|---|
| | | c) Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin, copi ynghlwm. |
| **8.** | | **Ceisiadau Ariannol**<br>**a) Cytuno ar Ffurflen Safonol**<br>Ystyried y ffurflen ddrafft a ddosbarthwyd i'r cynghorwyr ar 4ydd Mehefin 2023, a nodi os oes angen ychwanegu neu ddiwygio. Bydd copi caled ar gael i'r aelodau ar y noson.<br><br>**b) Cais am gymorth ariannol gan Moelwyn Gymnastics Academy**<br>Ystyried cais am gymorth ariannol gan Moelwyn Gymnastics Academy, copi o'r hwn a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen.<br><br>**c) Cais am gymorth ariannol – Cymdeithas Gwelliannau Ffestiniog**<br>Ystyried cais gan Gymdeithas Gwelliannau Ffestiniog, ebost a dderbyniwyd ar 25ain Mai 2023, copi a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen.<br><br>**Ch) Ebost gan Rhys Roberts, CellB**<br>Ystyried ebost gan Rhys Roberts, CellB yn holi os yw'r Cyngor Tref wedi gwneud penderfyniad ynglŷn a'r cais am gymorth ariannol:<br><br>*Annywl Cyngor Tref, a fyddai bosib cael penderfyniad ar y cais plis? Ni allwn barhau i redeg y Clwb, a plant a pobol ifanc yn galw arnom i ail gychwyn.*<br>*Byddai cael atab ia neu na o help mawr i Gwmni Gwallgofiad allu barhau i gynllunio i ddyfofol ei'n plant a pobol ifanc.*<br>*Diolch*<br>*Rhys Roberts* |
| **9.** | | **Cais i Brynu Tir – Pen-y-Bryn, Cae Baltic**<br>Diweddariad ar gyfarfod ar y safle a gynhhaliwyd rhwng y Clerc a Phrisiwr cwmni Tom Parry ar 8fed Mehefin 2023. |
| **10.** | | **Datblygiadau yn yr ardal**<br><br>**Iechyd** – Derbyn adroddiad llafar ar ddiffibrilwyr. |
| **10.** | | **Taliadau**<br>Cymeradwyo taliadau i'w gwneud ym mis Mehefin, rhestr a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen. |
| **11.** | | **Trydan yn y Parc** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ystyried adnewyddu cytundeb cyflenwad trydan ar gyfer Caffi'r Pafiliwn yn y Parc. Adroddiad gan y Clerc. |
| **12.** | | **Cynllun Tyfu Tatws**<br><br>Adroddiad llafar gan y Clerc ar y cynllun hwn, yn dilyn cais gan Nina Bentley i'r Cyngor Tref ystyried cefnogi'r fenter yn y dyfodol. |
| **13.** | | **Cynnig i newid enw'r Pwyllgor Rheoleiddio**<br><br>Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2023, ystyried newid enw'r pwyllgor i:<br><br>Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio. |
| **14.** | | **Anfoneb gan Gwyn Thomas**<br><br>Ystyried adroddiad llafar gan y Clerc. |
| **15.** | | **Cyfleusterau Zoom**<br><br>Ystyried y trefniadau Zoom ar gyfer y Cyngor Tref. |
| **16.** | | **Cymorth gyda gwaith cyllid y Cyngor Tref**<br><br>Ystyried adroddiad llafar gan y Clerc. |
| **17.** | | **Diwrnod Cyfarfodydd y Cyngor Tref**<br><br>Ystyried a ddylid newid y diwrnod pan fydd y Cyngor Tref a'i Bwyllgorau yn cyfarfod, yn dilyn pryderon a fynegwyd ynglŷn ag anawsterau yn deillio o'r ffaith fod anawsterau yn codi oherwydd gwyliau banc. |
| **18.** | | **Clybiau Ieuenctid y Blaenau a Llan**<br><br>Ystyried ebost a dderbyniwyd gan Sion Bryn Roberts, ar 6ed Mehefin 2023:<br><br>*Prynhawn da*<br><br>*Sud ydych chi,*<br><br>*Eisiau holi am y clwb am y flwyddyn nesaf osgwelwch yn dda*<br><br>*Eisiau gwybod er mwyn gallu mynd i hysbysebu allan am swyddi os yn parhau?*<br><br>*Ydi cyngor Tref Ffestiniog eisiau parhau am y flwyddyn nesaf plîs*<br><br>*Diolch*<br>*Bryn* |
| **19.** | | **Materion er Gwybodaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol. |
| **20.** | | **Datgan Swydd Cynghorydd Wag – Ward Cynfal a Theigl**<br><br>Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Ifor Roberts, roedd angen datgan bod swydd wag ar gyfer Ward Cynfal a Theigl. |



Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD 7fed Mehefin 2023.